# ADRODDIAD PANEL STRATEGOL DIOGELU

# 2018-2020

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno trosolwg o waith y Panel Strategol Diogelu (Panel Strategol) dros y cyfnod Rhagfyr 2018 i Ragfyr 2020, gan roi darlun clir a theg o'r gwaith a gyflawnwyd, a chrynhoi barn archwilwyr allanol ar y gwaith.

1.2 O ganlyniad i bandemig Covid-19 yn 2020, mae'r adroddiad hwn yn hwyrach na'r arfer yn cael ei gyhoeddi, gan fod nifer o staff y Cyngor wedi eu harall-gyfeirio i weithio'n cefnogi ein cymunedau. Mae'r adroddiad hwn felly'n adrodd ar waith dros gyfnod o ddwy flynedd yn hytrach na blwyddyn. Wrth gwrs, mae'r gwaith hanfodol o ddiogelu ein trigolion wedi parhau, dim ond y dasg o adrodd ar y gwaith hwnnw sydd wedi ei oedi.

1.3 Bydd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd gan y Cyngor ei hun, a chan y Cyngor mewn partneriaeth ag eraill, yn ystod y cyfnod o dan sylw. Os oes gwybodaeth am waith diogelu gan y Cyngor eisoes wedi ei gyhoeddi, megis yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, gan archwilwyr allanol, neu gan sefydliadau eraill, rydym yn cyfeirio'r darllenydd at y dogfennau hynny yn hytrach nag ail-adrodd yr wybodaeth yma. Mae rhestr o'r adroddiadau hynny i'w gweld yn Adran 9.

1.4 Yn olaf, bydd yr adroddiad yn amlinellu blaenoriaethau'r Panel Strategol Diogelu ar gyfer y dyfodol.

## 2. CYFRIFOLDEBAU AC ATEBOLRWYDD

2.1 Nod y Panel Strategol Diogelu yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch plant, pobl ifanc ac oedolion. Ers 2017/18 mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am drosolwg o faterion diogelu ehangach ar draws Gwynedd, megis Diogelwch Cymunedol.

2.2 Mae'r Panel yn ei dro yn atebol i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sef y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn achos y Cyngor, sydd â'r atebolrwydd terfynol am faterion diogelu.

2.3 Cadeirydd y Panel dros y cyfnod o dan sylw oedd y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc, ac roedd yn cael ei gefnogi gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Morwena Edwards. Mae gweddill yr aelodaeth yn cynnwys: Aelodau Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant; Addysg; Cefnogaeth Gorfforaethol; Penaethiaid Adrannau Plant a Chefnogi Teuluoedd, Oedolion Iechyd a Llesiant, Addysg; Swyddog Monitro; Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn, a Chadeirydd y Panel Gweithredol Diogelu.

2.4 Mae'r Panel Gweithredol Diogelu yn cefnogi'r Panel Strategol i weithredu ei flaenoriaethau ac i ymdrin â materion gweithredol ac ymarferol y maes gwaith. Panel

mewnol o swyddogion yw hwn, gyda phencampwr diogelu pob adran o'r Cyngor yn eistedd arno, a hynny er mwyn sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan o faterion diogelu.

2.5 Mae perfformiad y Cyngor yn y maes diogelu yn cael ei asesu gan archwilwyr allanol annibynnol fel rhan o'u gwaith o asesu perfformiad ehangach. Mae dolenni i adroddiadau gan archwilwyr allanol i'w gweld yn Adran 8.

## 3. YR HYN A WIREDDWYD YN YSTOD Y CYFNOD RHAGFYR 2018 I RHAGFYR 2020

3.1 Hyd at 2018 bu materion diogelu yn feysydd blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor, a hynny er mwyn canolbwyntio egni a ffocws ar ddiweddaru ein trefniadau. Y cam naturiol nesaf oedd adeiladu ar y trefniadau hynny yn ystod y cyfnod hyd at y presennol, ac i'r dyfodol wrth gwrs.

3.2 Fe osododd y Panel Strategol her iddo'i hun ar gyfer y cyfnod hwn, sef canolbwyntio ar wneud cynnydd mewn 4 maes blaenoriaeth:

### 3.3 1. Trefniadau Llywodraethu'r Panel Strategol Diogelu

**Pwrpas**: Adolygu a Gwella trefniadau Llywodraethu'r Panel Strategol Diogelu a'r Panel Gweithredol

| **Beth oedd angen ei wneud?** | **Cynnydd a wnaed** | **Y dyfodol** |
|---|---|---|
| Datblygu mesuryddion sydd yn mesur perfformiad yn erbyn y pwrpas | Mae rhaglen waith, a chynllun cyfathrebu negeseuon diogelu gyda staff, yn cael eu mireinio'n barhaus. Mae'r diweddariad cyfredol wedi ei gytuno gan y Panel Gweithredol fis Rhagfyr 2020. Defnyddiwyd holiadur er mwyn cynnal arolwg o ymwybyddiaeth staff o'u cyfrifoldebau yn y maes diogelu rhwng Ionawr a Chwefror 2020, ac mae'n un dull o fesur llwyddiant gwaith y Panel Gweithredol. Gwnaed newidiadau i'r rhaglen waith yn dilyn asesu'r canlyniadau.<br><br>Mae presenoldeb yn y Panel Gweithredol wedi cynyddu dros y cyfnod hwn oherwydd bod gan bob pencampwr adrannol gyfrifoldebau adrodd cryfach, yn enwedig wrth gasglu gwybodaeth am ddyfarniadau DBS.<br><br>Credir bod angen parhau i adeiladu ar y gwaith o ddatblygu mesuryddion a bydd y Panel Gweithredol yn parhau gyda'r gwaith. | Cynnydd pellach ei angen i sicrhau bod y mesuryddion yn cael eu hymgorffori yng ngwaith adrannau. |

| | | |
|---|---|---|
| Sicrhau bod y gefnogaeth weinyddol ac arbenigol briodol ar gael i'r gwaith o fewn Paneli | Mae'r Panel Strategol a'r Panel Gweithredol yn derbyn cefnogaeth weinyddol drwy'r Gwasanaeth Democratiaeth. Mae cefnogaeth ymarferol gwasanaethau megis Dysgu a Datblygu'r Sefydliad, a Chyfathrebu ac Ymgysylltu yn galluogi'r rhaglenni gwaith i gael eu gwireddu. | Wedi ei gyflawni - parhau i gynnal y safon |
| Sicrhau bod y Paneli yn cwrdd o fewn y Cylch Perfformiad. | Mae'r Paneli Strategol a Gweithredol wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd drwy'r cyfnod o dan sylw, ac wedi parhau i gyfarfod yn rhithiol dros gyfnod Covid-19 yn ogystal. | Parhau i gynnal y safon |
| Addasu'r Cylch Gorchwyl | Mae'r Cylch Gorchwyl newydd yn ei le, ac mae trefniadau aelodaeth ac atebolrwydd yn glir.<br><br>Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd wedi cryfhau, gyda'r Panel Gweithredol yn benodol wedi canolbwyntio ar wreiddio'r cyfrifoldeb am faterion diogelu ar draws holl adrannau'r Cyngor. Mae hyn wedi sicrhau presenoldeb gan gynrychiolydd o bob adran yn rheolaidd, gyda phawb yn cyfrannu at elfennau arbenigol.<br><br>Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi ei ddiweddaru, ac mae'r Polisïau Adrannol yn y rhaglen waith ar gyfer eu gwireddu erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21. | Parhau i gynnal y safon a chwblhau'r Polisïau Adrannol |

### 3.4 2. Trefniadau cyfarfodydd Diogelu rhanbarthol

**Pwrpas**: Deall yn well y tirlun Diogelu yn lleol a rhanbarthol

| **Beth oedd angen ei wneud?** | **Cynnydd a wnaed** | **Y dyfodol** |
|---|---|---|
| Cynnal awdit i ddadansoddi'r holl gyfarfodydd lleol a rhanbarthol o fewn y maes Diogelu. | Gwaith wedi ei gynnal yn ystod 2020 ar lefel ranbarthol i adolygu, symleiddio ac osgoi dyblygu o ran yr holl grwpiau sydd yn bodoli ac yn weithgar yn y maes diogelu a diogelwch cymunedol.<br>Mae cydweithio ar draws siroedd Gwynedd a Môn wedi cryfhau drwy fod â 2 Gydlynydd sy'n gweithio ar draws y ddwy sir. | Adlewyrchu ar y trefniadau lleol yn sgil y newidiadau rhanbarthol |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae gwaith pellach i'w wneud i weld sut fydd canlyniadau'r awdit yn newid y tirlun yn lleol. | |
| Adolygu a rhesymoli grwpiau rhanbarthol y Bartneriaeth Diogelwch | Mae'r gwaith adolygu a rhesymoli wedi'i gwblhau, ac mae strwythur newydd yn ei le. Mae swyddogion Cyngor Gwynedd bellach wedi cael eu hadnabod i fod yn rhan o'r grwpiau rhanbarthol a byddant yn adrodd yn ôl ar lefel leol. | Bydd trafodaethau yn cael eu cynnal ar sut i barhau i weinyddu'r cyfarfodydd |

### 3.5 3.Oedolion Mewn Perygl

**Pwrpas**: Sicrhau bod ymateb Cyngor Gwynedd i 'oedolion mewn perygl' yn cyd-fynd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

| **Beth oedd angen ei wneud?** | **Cynnydd a wnaed** | **Y dyfodol** |
|---|---|---|
| Cynnal adolygiad o drefniadau Diogelu Mewnol y Cyngor sydd yn ymwneud ag Oedolion Mewn Perygl | Cynhaliwyd awdit o drefniadau mewnol, a bellach mae cynghorau Gwynedd a Môn yn ymchwilio i achosion diogelu ar y cyd. Mae'r trefniant hwn wedi golygu bod gennym adnoddau ac arbenigeddau ehangach na phetaem yn gweithio ar wahân.<br><br>Mae Hwb Diogelu wedi ei sefydlu yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ers hydref 2017 yn ogystal, ac mae Cydlynydd Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) wedi ei benodi.<br><br>Cynhaliwyd gweithgaredd ffocws gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2019 ac mae'r Adran Oedolion yn gweithredu rhaglen waith yn dilyn ei argymhellion. | Parhau â'r trefniadau newydd |
| Fel rhan o'r adolygiad, tracio ambell achos er mwyn adnabod unrhyw wersi | Cynhaliwyd yr ymarferiad hwn ac mae'r trefniadau newydd sydd yn eu lle wedi gwella perfformiad o ran dogfennu penderfyniadau. | Parhau â'r trefniadau newydd |

### 3.6 4.Hyfforddiant

**Pwrpas**: Sicrhau gweithlu sydd â gwybodaeth gyfredol o ddiogelu

| Beth oedd angen ei wneud? | Cynnydd a wnaed | Y dyfodol |
|---|---|---|
| Creu cwrs Diogelu cynhwysfawr i'r gweithlu sy'n cynnwys yr holl faterion diogelu, sydd â'r hyblygrwydd o gael ei deilwra fel yr angen | Yn dilyn cyhoeddi Canllawiau Diogelu Plant newydd mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant ar-lein ers Gorffennaf 2020.<br><br>Mae nifer o gyrsiau 'e-ddysgu' wedi eu datblygu ar-lein yn ystod 2018-2020 ym meysydd Amddiffyn a Diogelu Plant, Diogelu Oedolion, Cam-drin Domestig, Atal a Chaethwasiaeth Fodern.<br><br>Anfonwyd neges gan y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Cadeirydd y Panel Strategol Diogelu i staff (drwy amrediad o sianeli Cyfathrebu gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol), yn gofyn i holl staff gwblhau hyfforddiant diogelu, yn benodol yr elfennau uchod.<br><br>Roedd 5,540 o'r sesiynau hyn wedi eu cwblhau erbyn 9 Rhagfyr 2020. Un arf yn unig o blith nifer yw modiwl hyfforddiant ar-lein, a ni ddylid dibynnu arno fel yr unig ddull dysgu, na'r unig fesur o ddealltwriaeth o faterion diogelu.<br><br>Rhwng Ionawr a Mawrth 2020, gofynnwyd i staff y Cyngor fesur eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau yn y maes diogelu. O'r rhai a ymatebodd, roedd 96.6% yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i dynnu sylw os oes amheuaeth bod rhywun yn cael ei gam-drin, ond roedd y ffigwr yn gostwng i 70% ar gyfer y rhai oedd yn credu eu bod yn gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n meddwl fod rhywun yn cael ei gam-drin ac mewn peryg ble byddai angen ymateb brys, neu ddim ar frys.<br><br>Roedd canlyniadau'r holiadur yn profi bod gwaith pellach i'w wneud er mwyn sicrhau bod pob un o staff y Cyngor yn gwybod *beth* i'w wneud, ac felly mae rhaglen waith newydd wedi ei datblygu gan y Panel Gweithredol, fydd yn cael ei haddasu'n | Parhau i hyrwyddo cyrsiau e-ddysgu fel un dull o godi ymwybyddiaeth ac addysgu am faterion diogelu |

| | | |
|---|---|---|
| | barhaus, er mwyn cyfathrebu'r prif negeseuon diogelu. | |
| Darparu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu (*Ask and Act*) | Yn sgil Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith hyfforddi cenedlaethol sy'n cynnwys chwe elfen o hyfforddiant. Bydd holl broffesiynau'r gwasanaethau cyhoeddus yn perthyn i un o'r grwpiau hyn ac mae'n ofynnol bod pob aelod o weithlu'r Cyngor yn derbyn yr hyfforddiant perthnasol.<br><br>Roedd Llywodraeth Cymru wedi disgwyl i Gynghorau fod wedi cwblhau 50% o'r hyfforddiant erbyn diwedd 2017, ond ni chyrhaeddwyd y nod hwn am amryw resymau, gan gynnwys argaeledd rhaglenni *hyfforddi'r hyfforddwyr* a deunyddiau Cymraeg.<br><br>Erbyn hyn, mae 4 o hyfforddwyr wedi'u hyfforddi yn ystod cyfnod 2018-2020 (ym meysydd Oedolion, Addysg a Chefnogaeth Gorfforaethol).<br><br>Hefyd, datblygwyd rhaglen hyfforddi Gofyn a Gweithredu (*Ask and Act*) newydd 'o bell' (rhithiol) gan staff yr Adran Dysgu a Datblygu'r Sefydliad ynghyd ag aelod o staff yr Adran Addysg, a bu'n rhaid disgwyl i'w chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Rhedwyd cwrs 'peilot' llwyddiannus ym mis Tachwedd 2020 gan aelodau staff yr Adran Dysgu a Datblygu'r Sefydliad a'r Adran Addysg, gyda staff Addysg yn derbyn hyfforddiant. Mae rhaglen 12 mis yn ei lle erbyn hyn ar gyfer yr Adran Addysg. Mae'r tîm datblygu gweithlu yn datblygu rhaglen ar gyfer staff Gofal. | Cynnal rhaglenni hyfforddiant i gyrraedd nod Llywodraeth Cymru, a sicrhau bod mwy o aelodau staff yn ei gwblhau |
| Sicrhau bod holl weithlu'r Cyngor yn cwblhau e-fodiwl Trais yn y Cartref. | Yn 2019, gofynnwyd i holl aelodau staff Cyngor Gwynedd gwblhau e-fodiwl Trais yn y Cartref. Gwaetha'r modd, mae'r ymateb wedi bod yn siomedig iawn hyd | Dadansoddi a deall pam fod y ffigyrau mor siomedig (drwy |

| | | |
|---|---|---|
| | yma, gydag ond 1,852 o aelodau staff wedi cwblhau'r e-fodiwl erbyn diwedd 2019. Roedd y ffigwr hwn wedi cynyddu i 2,491 erbyn diwedd 2020, felly mae cynnydd bach wedi'i wneud, ond mae angen parhau i gynyddu'r nifer o aelodau staff sy'n cwblhau'r modiwl, a hyrwyddo ei bwysgirwydd. | ddull megis holiadur), a cheisio dod o hyd i ddatrysiad sy'n arwain at gynnydd yn y niferoedd sy'n cwblhau'r e-fodiwl |

**4. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH**

4.1 Mae'r cyfnod rhwng Rhagfyr 2018 a Rhagfyr 2020 wedi gweld cryfhau'r trefniadau o weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill yn lleol i Wynedd ac yn rhanbarthol ar draws gogledd Cymru.

4.2 Er bod y Panel Strategol Diogelu yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau corfforaethol yn ymwneud â materion diogelu o fewn Gwynedd, mae hefyd yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad drwy **Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Bregus**, sy'n gweithio ar draws gogledd Cymru. Mae'r rhain yn Fyrddau Statudol gydag aelodaeth draws-asiantaethol, sydd â chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae'r Cyngor yn aelod o'r Byrddau hyn ac yn cyfrannu at weithredu eu cynlluniau. Mae gwybodaeth bellach am waith y Byrddau i'w weld yma - https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/ ac mae dolenni i adroddiadau blynyddol y Byrddau i'w gweld yn Adran 9.

4.3 Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn mae'r Cyngor hefyd wedi cryfhau ei bartneriaeth waith gyda **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** mewn sawl maes, ond mae'r maes diogelu wedi elwa gan fod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd bellach yn monitro ansawdd gofal nyrsio mewn cartrefi gofal ar y cyd. Mae hyn, eto, yn arfer da llwyddiannus fydd yn parhau i'r dyfodol.

4.4 Bu cydweithio da hefyd yn y maes Plant, yn enwedig yn ystod cyfnod y pandemig. Daeth Covid-19 â heriau newydd i'r gwasanaeth a'r partneriaethau perthnasol, ond llwyddwyd i barhau i gydweithio a thrafod i ddatrys yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu er mwyn gweithredu eu cyfrifoldebau yn llawn.

**5. PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD A MÔN**

5.1 Mae **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn** hefyd wedi dangos bod gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau siroedd yn profi'n llwyddiant. Mae Rheolwr y Bartneriaeth yn eistedd ar y Panel Strategol Diogelu, ac mae gwaith y Bartneriaeth mewn meysydd megis Atal/Prevent yn hanfodol os yw'r Panel am sicrhau ansawdd trefniadau diogelu yng Ngwynedd.

5.2 Mae gan nifer o sefydliadau ddyletswydd statudol i fod yn rhan o'r bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Mae gwybodaeth am bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol y mae'r Cyngor yn ymwneud ag o ar ein gwefan.

5.3 Mae gwybodaeth am Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn, ynghyd â Chynllun Lleol Diogelwch Cymunedol 2020 i'w weld yma. Mae elfennau o'r cynllun gwaith hwn wedi eu hoedi eleni yn sgil Covid-19 oherwydd nad oedd yn bosibl cynnal ymgyrchoedd wyneb yn wyneb yn ein cymunedau, ond nid yw'r gwaith yn ei gyfanrwydd wedi llacio.

5.4 Mae gofyn i'r Bartneriaeth adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Craffu Gofal yn flynyddol er mwyn rhoi trosolwg o brif ddatblygiadau strategol y Bartneriaeth dros y flwyddyn, ynghyd â'r gwaith comisiynu sydd yn gosod fframwaith i'r blaenoriaethau sydd yn seiliedig ar asesiad strategol. Ni chodwyd unrhyw bryderon yn y Pwyllgor Craffu yn 2019 na 2020.

## 6. MATERION DIOGELU EHANGACH

6.1 Diogelu Plant

6.2 Ar ddechrau 2019, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, mai un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru fydd lleihau niferoedd y plant mewn gofal, a gosodwyd gofyn ar awdurdodau lleol i osod targed rhifyddol i leihau niferoedd er mwyn medru mesur llwyddiant yn erbyn y targed hwnnw.

6.3 Penderfynodd Cyngor Gwynedd na fyddai'n gosod unrhyw darged rhifyddol na chanrannol mewn perthynas â niferoedd plant mewn gofal, gan fod gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i sicrhau fod pob plentyn yn cael eu diogelu rhag niwed.

6.4 Gan mai pwrpas y Gwasanaeth Plant yw sicrhau bod pethau'n gwella drwy ymarfer priodol addas, ac nid drwy gydymffurfio drwy gyrraedd targed, gwnaethant ganolbwyntio ar wella ymarfer, deall y gofynion ar y Gwasanaeth, gwelliant parhaus a chael gwared ar rwystrau er mwyn cyflawni'r gorau i blant.

6.5 Gwelodd pandemig Covid-19 dueddiadau newydd mewn cyfeiriadau plant oedd yn arwain at bryder gan y gwasanaeth am yr achosion nad oeddynt yn eu cyrraedd. Roedd sawl rheswm am hyn gan gynnwys plant ddim yn mynychu ysgolion, a gwasanaethau iechyd rheng flaen yn cael eu harall-gyfeirio i rolau penodol i ymateb i'r argyfwng. Golygodd hyn fod yn sylweddol llai o gyswllt uniongyrchol gyda theuluoedd na'r arfer.

6.6 Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y cyfeiriadau i'r gwasanaeth ar gychwyn y pandemig. Bu cynnydd dros amser, gyda chyfeiriadau yn ôl i'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig erbyn mis Medi, ond erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y niferoedd wedi gostwng unwaith eto sydd yn golygu fod angen deall a dadansoddi'r rheswm dros hyn

er mwyn sicrhau bod yr Adran Plant yn rhoi popeth sydd ei angen yn ei le i sicrhau fod asiantaethau a'r cyhoedd yn ymwybodol fod y gwasanaeth ar gael i ymateb i unrhyw fater fel yr arfer.

6.7 Ni fu dirywiad yng ngallu'r gwasanaeth i ymateb i gyfeiriadau nac i gynnal ymchwiliadau diogelu yn amserol. Bu i'r gwasanaeth sicrhau bod cyswllt uniongyrchol yn digwydd gyda phlant oedd mewn perygl a phlant ar y Gofrestr Diogelu Plant yn rheolaidd ac yn uniongyrchol o fewn canllawiau Covid-19. Nid oedd rhestr aros am wasanaeth mewn lle, bu'r gweithlu ar gael yn barhaus drwy'r cyfnod ac roedd modd sicrhau fod achosion newydd o bryder o niwed arwyddocaol oedd angen eu cyflwyno i'r llysoedd yn cael eu clywed yn amserol mewn llysoedd rhithwir.

6.8 <u>Diogelu Oedolion</u>

6.9 Ers 1 Medi 2020, mae Canllawiau Diogelu newydd ar waith. Mae'r canllawiau newydd hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar lais yr unigolyn o fewn y broses ddiogelu, ac mae'n gwahaniaethu rhwng pryder am lesiant a phryder am ddiogelwch unigolion. O ganlyniad, bu newid yn y Polisi Diogelu Corfforaethol er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r Canllawiau newydd. Mae disgwyliad bod pob Adran yn addasu eu polisïau diogelu eu hunain er mwyn cydymffurfio â'r Polisi a'r Canllawiau.

6.10 O ran cyfeiriadau i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod pandemig Covid-19, roeddent yn isel ar ddechrau'r cyfnod clo, ond roeddent wedi codi'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd misol o 50 cyfeiriad erbyn mis Gorffennaf (73 cyfeiriad) ac Awst (80 cyfeiriad). Nid oedd yn ymddangos bod patrwm penodol mewn perthynas â sail i'r cyfeiriadau.

6.11 Erbyn diwedd 2020, roedd y cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau wedi parhau. Mae'r cynnydd wedi cael ei nodi fel risg, felly bydd yr Adran yn cadw golwg ar lefel y cyfeiriadau.

6.12 <u>Rheoliadau a Chanllawiau Addysg yn y Cartref</u>

6.13 Rydym fel Cyngor yn rhannu pryderon Comisiynydd Plant Cymru ac ADSS Cymru ynghylch yr oedi yn ystod 2020 gan Lywodraeth Cymru yn dod â deddfwriaeth drwy'r Senedd er mwyn rheoleiddio'r maes addysgu yn y cartref. Mae'r cynnydd yn y niferoedd o blant sy'n cael eu tynnu allan o'r gyfundrefn ysgolion i'w haddysgu adref eleni wedi amlygu'r angen i gael canllawiau clir ar gyfer awdurdodau lleol a theuluoedd fel ei gilydd ynghylch sut i sicrhau lles a diogelwch unrhyw blentyn. Sôn ydym yma am blant sy'n cael eu haddysgu gartref yn barhaol, yn hytrach na phlant sy'n dysgu o bell gartref yn ystod cyfnod Covid-19.

6.14 Wrth dderbyn bod Covid-19 yn cael effaith ar waith y rhan fwyaf o sefydliadau, rydym hefyd yn bryderus nad oes ymrwymiad clir gan y Gweinidog Addysg ynghylch os, a

phryd, y bydd taith y ddeddfwriaeth yn ail-gychwyn. Roedd disgwyl i ganllawiau statudol gymryd lle'r rhai anstatudol ym Medi 2021, ond mae hynny wedi cael ei oedi hyd nes fis Medi 2022 yn sgil y pandemig. Mae'r Comisiynydd Plant wedi nodi anghytundeb ynglŷn â'r oedi yma.

6.15 Yn y cyfamser, mae swyddogion yn yr Adrannau Addysg a Phlant a Chefnogi Teuluoedd yn parhau i ddilyn y canllawiau addysgu a diogelu presennol er mwyn cadw cyswllt gyda phlant a theuluoedd sy'n dewis addysgu o gartref.

6.16 Erbyn ail hanner 2020, nodwyd bod cynnydd wedi'i adrodd yn nifer y teuluoedd sydd yn gofyn i addysgu eu plant o gartref yn barhaol. Mae'n debyg mai'r rheswm dros y cynnydd hwn yw bod rhai o'r plant, neu aelodau yn y cartref, yn y categori cysgodi, a'r pryder yw y byddai'r plentyn yn dod â'r firws adref. O ganlyniad, bu'r Cyngor wrthi'n cryfhau'r broses o gwmpas Addysg yn y Cartref er mwyn rhoi cynllun trosglwyddo'n ôl i'r ysgol ar waith.

6.17 <u>Trais yn y Cartref</u>

6.18 Roedd pryder cenedlaethol y byddai trais yn y cartref ar gynnydd yn genedlaethol yn sgil Covid-19, ond ym mis Mai 2020, nodwyd bod nifer yr achosion yn isel yng Ngwynedd.

6.19 Erbyn diwedd 2020, roedd nifer yr achosion trais yn y cartref a adroddwyd yr un fath yn union â 2019. O ystyried fod cymaint mwy o bobl yn aros adref yn ystod y cyfnod clo, mae hyn yn bryderus gan ei fod yn codi'r cwestiwn a yw dioddefwyr yn rhy ofnus i adrodd am eu sefyllfa a'u bod yn byw mewn sefyllfaoedd o berygl. Er hynny, cadarnhawyd bod cydweithio da rhwng y Cyngor a'r Mudiadau perthnasol a bod ymdrechion wedi bod i godi ymwybyddiaeth o adrodd am drais yn y cartref.

6.20 <u>Troseddu</u>

6.21 Yn sgil y pandemig, roedd lefelau bron pob un o'r categorïau o droseddu wedi gostwng ym mis Mai 2020. Ar gyfartaledd, roedd y lefelau troseddu yng Ngwynedd 23% yn is na'r un adeg y llynedd.

6.22 Ym mis Gorffennaf a Medi, dechreuodd y cyfraddau godi eto'n raddol. Roedd categorïau troseddu megis stelcian, aflonyddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais yn y cartref wedi codi'n ôl i'r lefelau disgwyliedig.

6.23 Er hynny, roedd mwyafrif y categorïau troseddu yn parhau i fod yn sylweddol is na'r disgwyl, ac erbyn diwedd 2020 roedd lefelau troseddu ar y cyfan 15.2% yn is na'r un adeg yn 2019.

6.24 <u>Caethwasiaeth Fodern a Datganiad Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi</u>

6.25 Mae'r gwaith yma bellach yn disgyn o fewn strwythur strategol rhanbarthol, ac mae ymchwiliadau gan Heddlu Gogledd Cymru wedi adnabod achosion lleol sy'n cyfiawnhau'r flaenoriaeth y mae Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru wedi'i roi i Gaethwasiaeth Fodern. Mae'r ymchwiliadau hyn yn cadarnhau'r angen i gyrff cyhoeddus gydweithio er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf Gaethwasiaeth ond hefyd i ddiogelu lles unigolion bregus.

6.26 Fis Ionawr 2020 fe fabwysiadodd y Panel gamau gweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau pwrpasol yn eu lle, sef gosod canllawiau a llwybrau ar gyfer cyfeirio amheuon/achosion ar safle we Cyngor Gwynedd, sefydlu pwynt cyswllt sengl, cyhoeddi datganiad penodol blynyddol ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn osgoi Caethwasiaeth Fodern o fewn gweithgaredd busnes a'r cadwynau cyflenwi, a hyfforddiant i staff.

6.27 Ym mis Gorffennaf 2018 cymeradwyodd y Cabinet God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi, sy'n anelu i sicrhau bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn gweithredu i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol.

6.28 Yn dilyn ymrwymo i'r Cod, yn ystod 2019 fe gyhoeddodd y Cyngor Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern Cyngor Gwynedd 2020/21.

6.29 Mae'r datblygiadau diweddaraf yn erbyn y Cod Ymarfer a'r Datganiad Caethwasiaeth i'w gweld yn y ddogfen hon - Cynllun Gweithredu 2020-2021: Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â disgrifiad trefniadau cyflogaeth mewnol y Cyngor, mae'n dangos bod egwyddorion cyflogaeth foesegol hefyd wedi eu gwreiddio yn ein trefniadau caffael a'n prosesau tendro.

6.30 Gwrthderfysgaeth

6.31 Cwblhawyd Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth ar gyfer Cymru, a oedd yn edrych ar faterion risg mewn perthynas â gwrthderfysgaeth. Drwy'r Proffil hwn, cafodd Gwynedd ei adnabod fel rhanbarth sydd â lefel risg isel; er hynny, mae nod i barhau i godi ymwybyddiaeth yn y maes.

6.32 Atal/Prevent

6.33 Yn 2020, bu gwaith yn mynd rhagddo i ddod â Chynllun Atal/Prevent at ei gilydd. Roedd Gwynedd yn ardal risg isel mewn perthynas â radicaleiddio ac eithafiaeth; er hynny, roedd angen amlygu'r ffactorau risg.

6.34 Cadarnhaodd y Swyddfa Gartref mai unigolion yn gweithio ar eu liwt eu hunain oedd y risg uchaf yng Ngwynedd mewn perthynas ag ideolegau cymysg amhenodol.

## 7. ADOLYGIADAU YMARFER

7.1 Mae Cymru wedi datblygu fframwaith Adolygu Dysgu Ymarfer Plant (CPR) i wella'r diwylliant o ddysgu gwersi o achosion amddiffyn plant. Mae adolygiadau 'cryno' neu 'estynedig' yn bodoli yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn dan sylw. Maent yn cael eu cynnal gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru gyda'r nod o ddysgu gwersi i'w rhannu er mwyn ceisio osgoi achosion o'r fath i'r dyfodol.

7.2 Yn ystod y cyfnod (Hydref 2019) mae canlyniadau un achos adolygu ymarfer estynedig (ECPR) wedi ei gyhoeddi - AYPE Gwynedd 1 - 2015.

7.3 Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru hefyd yn cynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion, sy'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Diben yr Adolygiadau hyn yw nodi'r gwersi sydd i'w dysgu o achosion Diogelu Oedolion cymhleth neu anodd, a gweithredu newidiadau i wella gwasanaethau yn sgil y gwersi hyn.

## 8. Y DYFODOL

7.1 Fel y gwelir o'r tablau yn Rhan 3, mae gan y Panel ragor o waith i'w wneud i sicrhau bod rhai materion yn cael eu cryfhau ymhellach – mae hyn yn cynnwys mynediad at hyfforddiant diogelu priodol ac effeithiol, a defnyddio mesuryddion priodol.

7.2 Bydd y Panel yn parhau i fonitro sefyllfa diogelu trigolion Gwynedd yn sgil y pandemig gan edrych ar effaith hyn ar lefel a natur y galw ar opsiynau o ran sut i ymateb.

7.3 Unwaith y bydd y pwysau gwaith yn sgil y pandemig yn lleihau, mae bwriad i'r Panel gynnal sesiwn adlewyrchu er mwyn asesu os oes unrhyw fater angen sylw penodol gan y Panel. Yn ogystal â hyn, bydd y Panel yn parhau i dderbyn diweddariadau priodol er mwyn cael y sicrwydd bod materion diogelu yn derbyn y sylw priodol o fewn y gorfforaeth.

## 9. ARCHWILIADAU ANNIBYNNOL A DDERBYNIWYD YN YSTOD Y CYFNOD

Fel ag y nodwyd eisoes, mae asiantaethau allanol yn adolygu gwaith Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau. Mae'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod cyfnod yr Adroddiad hwn wedi eu rhestru isod:

Arolygiaeth Gofal Cymru:

Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol Awdurdod Lleol 2018/19: Cyngor Gwynedd

Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol Awdurdod Lleol 2019/20: Cyngor Gwynedd

## 10. DOLENNI I DDARLLEN PELLACH

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2019/20

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru 2019/20

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru - Adroddiad Blynyddol 2019/20

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru - Adroddiad Blynyddol 2018/19